**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Cardiff Bay
CARDIFF
CF99 1SN

23 Mai 2023

Annwyl Lywydd,

**Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2023**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu y bydd yr Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2023 ("Rheoliadau disodli") yn dod i rym ar 26 Mai 2023, ymhen llai na 21 diwrnod i'r dyddiad y cafodd ei osod. Mae copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig ynghlwm, er gwybodaeth ichi.

Diben yr Offeryn Statudol yw dirymu a disodli Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) (Cymru) 2023 (O.S. 2023/506 (Cy.76) ("y Rheoliadau Gwreiddiol") mewn ymateb i adroddiad gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (Adroddiad Rhif: SL(6)356). Gwnaed y Rheoliadau Gwreiddiol ar 3 Mai 2023 a'u gosod ar 5 Mai 2023 gyda dyddiad dod i rym ar 26 Mai 2023, yn unol â Rheol Sefydlog 27.2.

Effaith yr Offeryn Statudol fydd cyflawni rhwymedigaeth i weithredu'r Cytundebau Masnach Rydd rhwng y DU ac Awstralia a'r DU a Seland Newydd mewn perthynas ag awdurdodau Cymreig datganoledig, i osgoi unrhyw anghydfodau posibl gyda'r aelod-wladwriaethau a/neu eu cynigwyr ac osgoi ansicrwydd a allai gael effaith ar gynigwyr y DU i'r marchnadoedd caffael hyn. Mae Llywodraeth y DU wedi gwneud Rheoliadau tebyg a ddaw i rym ar 25 Mai 2023.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cadw at y confensiwn 21 diwrnod oherwydd y ffaith bod angen i'r Rheoliadau sy'n disodli'r Rheoliadau Gwreiddiol ddod i rym i gyd-fynd â Rheoliadau Llywodraeth y DU yn dod i rym er mwyn i'r Cytundebau Masnach Rydd gael eu gweithredu'n llawn ar draws y Deyrnas Unedig. Mae gan Reoliadau Llywodraeth y DU a'r Rheoliadau sy'n disodli'r Rheoliadau Gwreiddiol ddarpariaethau cysylltiedig, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ddod i rym yn olynol. Rhoddwyd ymrwymiad i Awstralia a Seland Newydd y bydd y Rheoliadau mewn grym erbyn 26 Mai 2023 fan bellaf.

At hynny, mae sylwedd, diben ac effaith y Rheoliadau sy'n disodli'r Rheoliadau Gwreiddiol yn union yr un fath â'r Rheoliadau Gwreiddiol. Yn sgil hynny, byddai Gweinidogion Cymru yn dadlau bod darpariaethau o sylwedd y Rheoliadau sy'n disodli'r Rheoliadau Gwreiddiol wedi'u gosod gerbron y Senedd, ac felly ar gael ar gyfer craffu arnynt ers 5 Mai.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government